

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021 (yb)

### YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith,  
Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE,  
Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones,  
Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones,  
Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Gary  
Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts,  
J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas,  
Ieuan Williams, Robin Williams.

### WRTH LAW:

Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog  
Monitro,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,  
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,  
Pennaeth Gwasanaethau Tai,  
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,  
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,  
Rheolwr Trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol  
(SH) (ar gyfer eitem 10),  
Swyddog Pwyllgor (MEH).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Neb

### YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorydd Richard Owain Jones

## 1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 9 Mawrth yn gywir.

## 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb

### 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Diolchodd y Cadeirydd i staff y Cyngor am eu gwaith diflino i gynnal gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod heriol ers dechrau'r pandemig. Er bod y sefyllfa wedi gwella o safbwynt y coronafeirws mae'n bwysig bod pawb yn dilyn y canllawiau cenedlaethol. Yr oedd hefyd yn dymuno diolch i bartneriaid allweddol y Cyngor am yr holl waith y maent wedi'i gyflawni ar yr Ynys.
- Bu i'r Cadeirydd longyfarch a chroesawu'r aelodau newydd o'r Cyngor Sir - Y Cynghorydd Jeff Evans sydd wedi'i ethol i gynrychioli ward Caergybi a'r Cynghorydd Gary Pritchard sydd wedi'i ethol i gynrychioli ward Seiriol.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr Mark Drakeford ar gael ei ail-ethol yn Brif Weinidog Cymru.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr Rhun ap Iorwerth ar gael ei ail-ethol i gynrychioli etholaeth Ynys Môn yn y Senedd.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Mrs Heledd Fychan ar ennill sedd ranbarthol i gynrychioli Canol De Cymru yn y Senedd. Mae Mrs Heledd Fychan yn ferch i'r Cynghorydd Vaughan Hughes.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Westy Lastra, Amlwch ar ennill y wobr *Best Small Hotel Award 2021*.
- Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno diolch i staff y Gwasanaeth Etholiadol am eu gwaith caled dan amgylchiadau anodd.  

\* \* \* \*
- Bu i'r Cadeirydd longyfarch Mr Fôn Roberts ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar.
- Bu i'r Cadeirydd hefyd longyfarch Mr Christian Branch ar gael ei benodi'n Bennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ddiweddar.  

\* \* \* \*
- Estynnwyd cydymdeimlad i deulu'r Cyn-Gynghorydd Sir Mr John Arwel Edwards a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mr Edwards yn cynrychioli ardal Llanfairpwll.

- Estynnwyd cydymdeimlad i deulu'r Cyn-Gynghorydd Sir Mr Keith Evans a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mr Evans yn cynrychioli ardal Porthaethwy ac fe roddodd oes o wasanaeth i Lywodraeth Leol ac roedd hefyd yn gyn-gadeirydd o'r Cyngor Bwrdeistref.
- Estynnwyd cydymdeimlad i Mrs Lola Richards a'i theulu ar golli ei gŵr yn ddiweddar.
- Estynnwyd cydymdeimlad i deulu Mr Trefor Wyn Jones a fu farw'n sydyn yn 55 oed yn dilyn salwch byr. Roedd Mr Jones yn gweithio yng Ngweithdy Canolfan Byron ers 2003.

Estynnwyd cydymdeimlad i unrhyw Aelod o'r Cyngor neu Staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

#### **4. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS:-

*'Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn dymuno cydnabod y camweinyddiad cyfiawnder sylweddol a ddioddefwyd gan y cyn Gynghorydd Mr Noel Thomas pan y'i cafwyd yn euog o gyfrifyddu anwir, un ar bymtheg mlynedd yn ôl. Hoffai'r Cyngor wahodd Mr Thomas i fynychu'r cyfarfod llawn nesaf er mwyn iddo dderbyn pleidlais ffurfiol o ddiolch am ei wasanaeth ffyddlon fel Cynghorydd Sir.'*

Dywedodd y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS bod y cyn Gynghorydd Mr Noel Thomas wedi dioddef camweinyddiad cyfiawnder sylweddol oherwydd system gyfrifo TG Swyddfa'r Post, sef Horizon. Fis diwethaf, ar ôl brwydro am 16 mlynedd i adfer ei enw da, cafodd euogfarnau Mr Thomas a 38 is-bostfeistri eraill eu dileu yn y Llys Apêl yn Llundain. Nododd bod Mr Thomas wedi bod yn aelod lleol poblogaidd a chydwybodol ar gyfer ward Llanfihangel Esceifiog a bod hyn wedi achosi pryder na ellir ei ddychmygu i Mr Thomas a'i deulu. Roedd y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS yn meddwl y byddai'n briodol gwahodd Mr Thomas i'r cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor Sir unwaith y bydd cyfarfodydd yn ailymgynnull yn Siambr y Cyngor er mwyn iddo dderbyn pleidlais ffurfiol o ddiolch am ei wasanaeth fel Cynghorydd Sir.

Cefnogwyd y Rhybudd o Gynigiad gan y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig ac i wahodd Mr Noel Thomas i gyfarfod o'r Cyngor Sir pan fydd y cyfarfodydd yn ailymgynnull yn Siambr y Cyngor.**

#### **5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2020/21

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2020/21.

Yn gyntaf roedd Arweinydd y Cyngor yn dymuno mynegi'i diolch i staff y Cyngor am eu hymrwymiad a'u gwaith caled i ddiogelu cymunedau lleol ar yr Ynys yn ystod y pandemig covid-19.

Amlygodd Arweinydd y Cyngor y cynnydd a gyflawnwyd fel a ganlyn:-

### • Ymateb i'r pandemig Covid-19:-

- Mae Medrwn Môn a Menter Môn wedi cefnogi'r Cyngor i ddarparu cefnogaeth i gymunedau lleol gyda thros 900 o wirfoddolwyr yn cymryd o'u hamser i gefnogi'r cynlluniau tro da niferus sydd ar waith;
- Gweithiodd yr Awdurdod yn agos gyda Banciau Bwyd yr Ynys sydd wedi cynnig gwasanaeth drwy gydol yr argyfwng;
- Dros gyfnod y Nadolig daeth yr asiantaethau at ei gilydd i gynnig hamperi bwyd, anrhegion a chinio Nadolig i drigolion mewn angen;
- Mae gweithwyr y cyngor wedi addasu i weithio o'r cartref ac ar ddechrau'r pandemig sefydlwyd llinell ffôn 7 diwrnod o'r wythnos i gefnogi'r bobl fwyaf bregus yn y gymuned;
- Sefydlwyd tîm olrhain yn Ynys Môn fel ardal beilot yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith hwn yn hanfodol i ddiogelu cymunedau ar yr Ynys yn ystod yr achosion cyntaf mewn ffatri yn Llangedfni;
- Rhoddwyd system talu grantiau busnesau, cinio ysgol, hunan-ynysu, a thâl gweithwyr gofal yn ei le.

### • Gwaith Arferol:-

- Gosodwyd cyllideb eleni gyda'r ail godiad treth Cyngor isaf yng Nghymru;
- Buddsoddwyd mewn cynllun hyfforddeion, ariannu cynlluniau newid hinsawdd ac arian ychwanegol tuag at dwristiaeth;
- Fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru agorwyd canolfannau gofal plant yn Ysgol Esceifiog ac Ysgol Tywyn;
- Mae datblygu tai wedi parhau gyda 21 o gartrefi cymdeithasol newydd wedi'u gosod. Hefyd, prynwyd 18 o gyn dai Cyngor yn ôl i stoc dai'r Awdurdod. Mae 49 o dai wrthi'n cael eu hadeiladu nawr ar yr ynys ac mae cynlluniau ar waith i droi adeiladau yn ôl i fod yn aelwydydd;
- Mae'r Awdurdod wedi gweithio drwy fabwysiadu strategaeth gorfforaethol mewn perthynas â newid hinsawdd. Gwelwyd buddsoddiad trwy osod boeleri a phaneli solar newydd mewn ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

### • Gwaith Rhanbarthol a Chenedlaethol

- Dywedodd yr Arweinydd ei bod wedi sicrhau llais cryf i Ynys Môn yn ystod trafodaethau cenedlaethol. Mae Arweinyddion o bob cwr o Gymru wedi cyfarfod bron yn wythnosol ers cychwyn yr argyfwng er mwyn rhannu pryderon a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol i hyn maent wedi cyfarfod

gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod pryderon lleol yn cael eu hadnabod a bod ymateb amserol gan y Llywodraeth;

- Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae Arweinwyr y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru wedi cwrdd â Chadeirydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Rhodddwyd cyfle i'r Cyngor holi'r Arweinydd ynglŷn â chynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Rogers at y pandemig a nododd ei fod wedi cael effaith arswydus ar bobl, yn enwedig pobl ifanc. Aeth ymlaen i ddweud bod problemau wedi bod â'r system ffôn sydd yn galluogi'r cyhoedd i gysylltu â Swyddfeydd y Cyngor. Ymatebodd y Deilydd Portffolio Busnes Corfforaethol ei fod yn gwerthfawrogi bod problemau wedi bod gyda'r system ffôn yn ystod y pandemig, fodd bynnag mae gwaith ar y gweill i ddelio â'r mater hwn. Roedd y Cynghorydd A M Jones yn dymuno cael gwybod beth oedd yr 'amserlen' arfaethedig ar gyfer diweddarau'r system ffôn gan fod nifer o gwynion wedi'u derbyn gan y cyhoedd ynglŷn â'r mater hwn cyn y pandemig. Dywedodd yr Arweinydd bod yr Awdurdod yn delio â system ffôn y Cyngor a bod trefniadau ar waith ar hyn o bryd i wella'r system. Dywedodd nad oedd yn sicr ar hyn o bryd, oherwydd y pandemig, tan pryd y byddai staff yn parhau i weithio o'r cartref a'i bod yn bwysig bod y system ffôn yn gallu addasu fel y gellir ateb galwadau yn Swyddfeydd y Cyngor a chan staff sydd yn gweithio o'r cartref.

Roedd y Cynghorydd A M Jones yn dymuno gwybod pryd y byddai'r Cyngor yn ailymgynnull yn Swyddfeydd y Cyngor i barhau â'r broses ddemocrataidd. Holodd pryd y byddai 'Cyswllt Môn' yn ail-agor i'r cyhoedd. Ymatebodd yr Arweinydd bod dychwelyd i barhau â'r broses ddemocrataidd wrthi'n cael sylw a bod staff hefyd yn dymuno dychwelyd i weithio yn Swyddfeydd y Cyngor. Nododd bod cyfarfodydd ZOOM a TEAMS wedi bod yn llwyddiannus a bod cynnal cyfarfodydd â rhai Aelodau Etholedig ar-lein ac Aelodau Etholedig eraill yn Siambr y Cyngor hefyd yn bosiblwydd. Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud bod y dasg o ail-agor cyfleusterau 'Cyswllt Môn' yn cael sylw ar hyn o bryd ond bod rhaid deall na fydd yr un cyfleusterau ar gael oherwydd y sefyllfa bresennol yn sgil y pandemig.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.**

## **7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2020/21 gan Mr John R Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Fe wnaeth Mr Jones grynhoi gwaith y Pwyllgor Safonau yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn ei Raglen Waith ar gyfer 2021/22 a oedd wedi'u cynnwys fel Atodiad ynghlwm â'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r Rhaglen a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Mai 2020 ac Ebrill 2021 yn ATODIAD A;**

- **Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2021/2022 fel ag yr amlinellwyd yn ATODIAD B.**

## **8. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2020/21**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Trosolwg a Sgrwtini ar gyfer 2020/21 gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Adroddodd y Cynghorydd A M Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol bod y Cadeiryddion Sgrwtini wedi datblygu blaen raglenni gwaith y naill Bwyllgor Sgrwtini. Roedd y Cynghorydd G O Jones yn dymuno diolch i'r Paneli Sgrwtini am eu gwaith i gefnogi proses sgrwtini'r Cyngor. Nodwyd bod angen penodi Pencampwr Sgrwtini i hyrwyddo'r swyddogaeth trosolwg a sgrwtini yn y Cyngor ac â phartneriaid allanol yr Awdurdod yn ogystal.

### **PENDERFYNWYD:-**

- **cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgrwtini ar gyfer 2020/21;**
- **nodi'r cynnydd parhaus a wnaed wrth weithredu'r siwrnai i ddatblygu Sgrwtini leol a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer;**
- **penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgrwtini ar gyfer y cyfnod Mai 2021 i Mai 2022.**

## **9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2020/21**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2020/21 gan y Cynghorydd Robert LI Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2020/21.

## **10. DATGANIAD AR Y POLISI TRWYDDEDU AM Y CYFNOD 2021-2026**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Mawrth, 2021 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gyfer 2021/2026.

## **11. PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL A WNAED RHWNG MAI 2020-EBRILL 2021**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, mewn sawl ffordd, yn unol â'r cynllun dirprwyo ac sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS  
CADEIRYDD**